



# Caneuon a Rhigymau



## Cyflwyniad:

Annwyl Riant/ Gofalwr,

Gallwch ddefnyddio'r llyfryn yma gyda'ch plentyn i gefnogi datblygu eu hiaith, drwy gyflwyno a mwynhau rhigymau, caneuon a llyfrau. Mi fydd hyn yn help i ddatblygu sgiliau darllen cyn mynd i'r ysgol.

## Oeddech chi'n gwybod ...

- bod canu rhigymau o oed ifanc yn helpu plant i siarad
- bod plant yn hoffi clywed yr un gân drosodd a throsodd
- drwy wybod nifer o ganeuon a rhigymau, mae dysgu darllen yn haws i blant.

Mae'r llyfryn yma wedi ei greu ar y cyd rhwng Iaith a Chwarae Sir Gâr a Dechrau'n Deg Sir Gâr, er mwyn cefnogi a hyrwyddo datblygiad iaith gynnar plant rhwng 0 a 3 mlwydd oed.

## Cynnwys:

• Troi ein dwylo	4
• Mi Welais Jac Y Do	5
• Adeiladu Tŷ bach	6
• Dwylo dros y llygaid	7
• Si-so Jac Y Do	8
• Un llaw I fyny	9
• Rownd a rownd yn yr ardd	10
• Dringodd y pry copyn	11
• Pen, ysgwyddau, coesau, traed	12
• Ji geffyl bach	13
• Un bys, dau fys, tri bys yn dawnsio	14
• Dau Dderyn bach ar ben y to	15
• Tedi bêr Tedi bêr	16
• Dyma'r ffordd i olchi dwylo	17
• Cylch o gylch rhosynnau	18
• Mae'r olwynion ar y bws	19
• Heno, heno, hen blant bach	20
• Amser gwely, amser gwely	21
• Amser codi, amser codi	22
• Un a dau a thri banana	23
• Rhowch y lliain ar y bwrdd	24
• Beth sydd yn y fasged siopa?	25
• Tedi bach a minnau	26
• Jim Cro Crystyn	27
• Tri Pysgod yn y Môr	28
• Siani flewog, Siani flewog	29
• Cnoc ar y drws	30
• Mae gen i het dri chorwel	31
• Hicori, Dicori, Doc	32

# Troi ein dwylo

**Troi ein dwylo, Troi ein dwylo,  
Troi a throi a throi fel hyn.**

**Curo'n dwylo, curo'n dwylo  
Clap a chlap a chlap fel hyn.**

**Chwifio'n dwylo, chwifio'n dwylo  
Chwifio a chwifio a chwifio fel hyn.**



Twirl our hands, twirl our hands,  
Twirl and twirl and twirl like this.

Clap our hands, clap our hands,  
Clap and clap and clap like this.

Wave our hands, wave our hands  
Wave and wave and wave like this

# **Mi Welais Jac y Do**

**Mi welais Jac y do**

**Yn eistedd ar ben to,**

**Het wen ar ei ben**

**A dwy goes bren,**

**Ho ho ho ho ho ho!**

**Yn canu ho ho ho!**

**Yn canu ho ho ho!**

**Het wen ar ei ben**

**A dwy goes bren,**

**Ho ho ho ho ho ho!**



I saw a Jackdaw,  
Sitting on top of a roof,  
A white hat on his head  
And two wooden legs,  
Ho ho ho ho ho ho!

# Adeiladu fŷ bach

Adeiladu tŷ bach un, dau, tri

Tô ar ei ben a dyna ni.

Sbio mewn drwy'r ffenest, beth welwch chi?

Llygoden fach yn cysgu, ust da chi!

Llygoden fach yn cysgu yn y tŷ,

Llygoden fach yn deffro! I ffwrdd â hi!



Building a little house, one, two, three,  
A roof on the top and there we are.

Looking through the window

What do I see?

A little mouse sleeping in the house...

A little mouse sleeping

Shh please!

A little mouse waking up -


Off she goes

**Dwylo dros y llygaid**  
**Dwylo dros y llygaid**  
**Dwylo dros y llygaid**  
**Ac yna dweud pi – pô!**



Hands over the eyes  
Hands over the eyes  
Hands over the eyes  
And then you say 'Peep – oh'

**Si –so Jac y Do,  
Dal y ‘deryn dan y to  
Mynd i Lundain i roi tro  
Dyna diwedd Jac – y – do**



See - saw Jackdaw  
Catch the bird under the roof  
Go to London to give it a go  
And that's the end of Jackdaw

## **Un llaw i fyny...**

**Un llaw i fyny, un law i lawr,  
Dwy law i fyny, dwy law i lawr.**

**Un fraich i fyny, un fraich i lawr,  
Dwy fraich i fyny, dwy fraich i lawr.**

**Un droed i fyny, un droed i lawr,  
Dwy droed i fyny, dwy droed i lawr.**



One hand up, one hand down,  
Two hands up, two hands down

One arm up, one arm down,  
Two arms up, two arms down.

One foot up, one foot down,  
Two feet up, two feet down

# **Rownd a rownd yn yr ardd**

**Rownd a rownd yn yr ardd**

**Fel tedi du a gwyn.**

**Un cam, dau cam**

**A chosi dan fan hyn.**

Run your finger around baby's palm, on the third line,  
jump finger up baby arm and tickle armpit



Round and round the garden,  
Like a teddy bear;  
One step, two steps,  
Tickly under there!



## **Dringodd y pry copyn**

**Dringodd y pry copyn**

**I fyny'r biben hir,**

**Glaw mawr a ddaeth**

**A'i olchi nôl i'r tir,**

**Yna daeth yr haul**

**A sychu'r glaw i gyd,**

**A dringodd y pry copyn**

**Y biben ar ei hyd.**

Incy Wincy Spider, climbing up the spout.  
Down came the rain and washed poor Incy out.  
Out came the sun and dried up all the rain.  
So Incy Wincy Spider climbed up the spout again.

**Pen, ysgwyddau, coesau, traed**

**Coesau traed.**

**Pen, ysgwyddau, coesau, traed**

**Coesau traed...a...**

**Llygaid, clustiau, trwyn a cheg.**

**Pen, ysgwyddau, coesau, traed**

**Coesau, traed.**



Head, Shoulders, Knees and Toes,  
Knees and Toes,  
Head, Shoulders, Knees and Toes,  
Knees and Toes  
Eyes and ears and mouth and nose,  
Head shoulders, Knees and Toes,  
Knees and Toes

# **Ji geffyl bach**

**Ji geffyl bach i'n cario ni'n dau**

**Dros y mynydd i hela cnau.**

**Dŵr yn yr afon a'r cerrig yn slic –**

**Cwmpon ni'n dau...wel dyna chi dric!**




Gee up little horse, to carry us both  
Over the mountain to hunt for nuts,  
Water in the river and the stones slippery,  
We both fell...oh well there's a trick for you!

**Un bys, dau fys, tri bys yn dawnsio,  
Pedwar bys, pump bys, chwe bys yn dawnsio,  
Saith bys, wyth bys, naw bys yn dawnsio,  
Deg bys yn dawnsio'n llon.**



One finger, two fingers, three fingers dancing,  
Four fingers, five fingers, six fingers dancing,  
Seven fingers, eight fingers, nine fingers dancing,  
Ten fingers dancing along

**Dau dderyn bach ar ben y to,  
Dyma Jim a dyma Jo,  
Cer, i ffwrdd Jim, cer i ffwrdd Jo,  
Dere nôl Jim a dere nôl Jo.**



Two little dickie birds sitting on the wall  
One named Peter and one named Paul,  
Fly away Peter, fly away Paul,  
Come back Peter, come back Paul

**Tedi bêr Tedi bêr**

**Lan a ni**

**Tedi bêr, tedi bêr**

**I lawr a ni**

**Tedi bêr, tedi bêr**

**Symud fel cawr**

**Tedi bêr, tedi bêr**

**Hwyl fawr!**

Teddy bear teddy bear  
turn around

Teddy bear teddy bear  
touch the ground

Teddy bear teddy bear  
turn off the light

Teddy bear teddy bear  
say goodnight.



**Dyma'r ffordd I Olchi dwylo  
Dyma'r ffordd I Olchi dwylo  
Dyma'r ffordd I Olchi dwylo**

**Yn gynnar yn y bore**

**Dyma'r ffordd I frwsio dannedd  
Dyma'r ffordd I frwsio dannedd  
Dyma'r ffordd I frwsio dannedd**

**Yn gynnar yn y bore**

**Dyma'r ffordd I frwsio gwallt  
Dyma'r ffordd I frwsio gwallt  
Dyma'r ffordd I frwsio gwallt**

**Yn gynnar yn y bore**

This is the way we wash our hands,  
Wash our hands,  
Wash our hands,  
On a cold and frosty morning.

This is the way we brush our hair,  
Brush our hair  
Brush our hair  
On a cold and frosty morning.

This is the way we clean our teeth,  
Clean our teeth  
Clean our teeth  
On a cold and frosty morning.



# **Cylch o gylch rhosynnau**

**Cylch o gylch rhosynnau**

**Poced llawn o flodau**

**A – tis – w! A – tis – w!**

**I lawr a ni.**

**1, 2, 3 – NEIDIO!**



Ring – a – ring – a- roses  
A pocket full of posies  
A – tish – oo! A – tish – oo!  
We all fall down.  
1, 2, 3 - JUMP!

# **Mae'r olwynion ar y bws**

**Mae'r olwynion ar y bws yn mynd rownd a rownd,**

**Rownd a rownd, rownd a rownd,**

**Mae'r olwynion ar y bws yn mynd rownd a rownd,**

**Trwy y dydd.**


**Mae'r corn ar y bws yn mynd bip bip bip,**


**Bip bip bip, bip bip bip.**

**Mae'r corn ar y bws yn mynd bip bip bip,**

**Trwy y dydd.**

The wheels on the bus go round and round,  
Round and round, round and round,  
The wheels on the bus go round and round,  
All day long. (Move hands round in a circle.)  
The wipers on the bus go swish, swish, swish...  
(Move forearms from side to side)  
The people on the bus go up and down...  
(Stand up, sit down)  
The horn on the bus goes beep, beep, beep...  
(Press horn while beeping)





**Heno, heno, hen blant bach,  
Heno, heno, hen blant bach,**

**Dime, dime, dime hen blant bach,  
Dime, dime, dime hen blant bach.**

**Gwely, gwely, hen blant bach,  
Gwely, gwely, hen blant bach,**

**Dime, dime, dime hen blant bach,  
Dime, dime dime hen blant bach.**

**Amser gwely, amser gwely  
Ssh ssh ssh, ssh ssh ssh  
Dewch i fyny'r grisiau, dewch i fyny'r grisiau  
Nos da bawb, nos da bawb.**



It is bedtime, it is bedtime  
Ssh ssh ssh, ssh ssh ssh  
Let's go upstairs, let's go upstairs  
Goodnight all, goodnight all.

**Amser codi, amser codi,  
Ow ow wow, Ow ow ow  
Dewch i wisgo dillad, dewch i wisgo dillad  
Crys a siwmper, trowsus hir.**

(crys a siwper, sgert a theits)

**Amser ‘molchi, amser ‘molchi  
Sblish sblast sblish, sblish sblast sblish.  
Dewch i ‘molchi wyneb, dewch i molchi wyneb  
Dŵr a sebon, dŵr a sebon.**

**Amser brecwast, amser brecwast  
iym iym iym, iym iym iym.  
Dewch i fwyta brecwast, dewch i fwyta brecwast  
Coco pops, coco pops**

(tost a jam, tost a jam. Weetabix, weetabix. Uwd twym neis, uwd twym neis.  
Bacwm ag ây, bacwm ag ây)

**Amser cinio, amser cinio  
iym iym iym, iym iym iym.  
Dewch i fwyta cinio, dewch i fwyta cinio  
Brechdan ham, brechdan ham....**

Time to get up, time to get up  
Oh oh oh, oh oh oh  
Let's get dressed, let's get dressed  
Shirt and jumper, long trousers  
(blouse and jumper, skirt and tights)  
Time to have a wash  
Splish splash splash, splish splash splash.  
Let's wash our faces, let's wash our faces  
Soap and water, soap and water.  
Time for breakfast, time for breakfast  
Yum yum yum, yum yum yum.  
Let's eat breakfast, let's eat breakfast  
Coco pops, coco pops

(toast and jam, toast and jam, weetabix,  
weetabix. Nice warm porridge, nice warm  
porridge. Egg on toast, egg on toast).  
It is lunchtime, it is lunchtime  
Yum yum yum, yum yum yum  
Let's eat lunch, let's eat lunch  
Ham sandwiches, ham sandwiches.  
(sausage and chips, sausage and chips.  
Beans and toast, beans and toast).

# **Un a dau a thri banana...**


**Un a dau a thri banana**

**Pedwar a phump,**

**A chwech banana,**

**Saith ac wyth a naw banana,**

**Deg banana melyn!**



One banana, two bananas  
Three bananas, more,  
Four bananas, five bananas,  
Six bananas, more,  
Seven bananas, eight bananas,  
Nine bananas, more,  
Ten yellow bananas!

## **Rhowch y lliain ar y bwrdd..**

**Rhowch y lliain ar y bwrdd,  
Rhowch y lliain ar y bwrdd,  
Rhowch y lliain ar y bwrdd  
I ni gael te.**

**Rhowch y tebot ar y bwrdd,  
Rhowch y tebot ar y bwrdd,  
Rhowch y tebot ar y bwrdd,  
I ni gael te.**

**Rhowch y cwpn ar y bwrdd,  
Rhowch y cwpn ar y bwrdd,  
Rhowch y cwpn ar y bwrdd,  
I ni gael te.**

**Rhowch y soser ar y bwrdd,  
Rhowch y soser ar y bwrdd,  
Rhowch y soser ar y bwrdd,  
I ni gael te.**

**Rhowch y plat ar y bwrdd...  
Rhowch y fforc ar y bwrdd...  
Rhowch y gyllell ar y bwrdd...  
Rhowch y llwy ar y bwrdd...  
Rhowch y cwpn ar y bwrdd...**

## **Beth sydd yn y fasged siopa?**

**Beth sydd yn y fasged siopa,  
Fasged siopa, fasged siopa?  
Beth sydd yn y fasged siopa?  
Dewch i ni cael gweld.**

**Teisen sy'n y fasged siopa,  
Fasged siopa, fasged siopa.  
Teisen sy'n y fasged siopa,  
Teisen jam i de.**

**Creision sy'n y fasged siopa,  
Fasged siopa, fasged siopa,  
Creision sy'n y fasged siopa,  
Creision braf i de.**

**Siocled sy'n y fasged siopa,  
Fasged siopa, fasged siopa.  
Siocled sy'n y fasged siopa,  
Siocled brown i mi.**

**Tedi bach a minnau  
Yn mynd i siop y dre,  
Tedi'n prynu losin  
A minnau'r prynu te.  
  
Tedi bach a minnau  
Yn mynd i Aberdâr,  
Tedi'n mofyn ceiliog  
A minnau'n mofyn iâr.**



**Jim Cro Crystyn**  
**Dacw mam yn dwad**  
**Ar ben y gamfa wen**  
**Rhywbeth yn ei ffedog**  
**A phiser ar ei phen**  
**Y fuwch yn y beudy**  
**Yn brefu am y llo**  
**A'r llo yr ochor arall**  
**Yn gwaeddi jim cro**  
**Jim Cro Crystyn**  
**Wan tw ffôr**  
**A'r mochyn bach yn eistedd**  
**Mor ddel ar y stôl.**

## **Tri Pysgodyn yn y Môr**

**Tri pysgodyn yn y môr,  
Tri pysgodyn yn y môr,  
Tri pysgodyn yn y môr,  
Yn nofio, nofio, nofio.**

**Marc y Siarc yn bwyta un,  
Marc y Siarc yn bwyta un,  
Marc y Siarc yn bwyta un,  
Dau sydd ar ol.**

**Dau bysgodyn yn y môr,  
Dau bysgodyn yn y môr,  
Dau bysgodyn yn y môr,  
Yn nofio, nofio, nofio.**

**Marc y Siarc yn bwyta un,  
Marc y Siarc yn bwyta un,  
Marc y Siarc yn bwyta un,  
Un sydd ar ol.**

**Un pysgodyn yn y môr,  
Un pysgodyn yn y môr,  
Un pysgodyn yn y môr,  
Yn nofio, nofio, nofio.**

**Marc y Siarc yn bwyta un,  
Marc y Siarc yn bwyta un,  
Marc y Siarc yn bwyta un  
Does dim ar ol.**

**Siani flewog, Siani flewog**

**Ble'r ei di?**

**Dringo i fyny, dringo i fyny**


**I dy gosi di.**

**Siani flewog, Siani flewog**

**Lan a ti, lan a ti.**

**Cer i gysgu, cer i gysgu, 1, 2, 3.**

**Dyma hi y pili pala pert.**



Caterpillar, caterpillar,  
creep, crawl, creep.  
Caterpillar, caterpillar,  
go to sleep.  
Caterpillar, caterpillar,  
bye and bye  
Change into a butterfly.

**Cnoc ar y drws,  
Pipiwch mewn,  
Codwch y gliced,  
A cherddwch mewn,  
Cymwerwch sedd  
Eisteddwch fan hyn,  
A dweud helo wrth,  
Mr gên gên gên.**


Knock on the door,  
Peep in,  
Lift up the latch,  
Walk in,  
Take a chair,  
And sit by there,  
How do u do?  
Mr chinny chin chin.



**Mae gen i het dri chornel,  
Tri chornel sydd i'm het;  
Ac os nad oes iddi dri chornel,  
Nid honno yw fy het.**



I have a hat with three corners,  
There are three corners to my hat;  
If it does not have three corners,  
Then it is not my hat.



## Hicori, Dicori, Doc

Hicori, Dicori, Doc,  
Llygoden Ian y cloc,  
Mae'n taro un (dau, tri)  
I lawr â hi,  
Hicori Dicori, Doc,  
(Tic, toc, tic, toc.)

Hickory, dickory dock,  
The mouse ran up the clock,  
The clock struck one (two, three)  
The mouse ran down,  
Hickory, dickory, dock.